# Adroddiad Arolygu

**Dilys Wilson**

**Crymych**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

14/12/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 11.05.2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae gan y plant lais cryf ac maent yn teimlo'n hyderus yng ngofal y gwarchodwr plant. Maent yn hapus ac wedi ymgartrefu, ac maent yn teimlo eu bod yn gallu gofyn am gymorth pan fydd angen. Mae rhyngweithio'r plant yn dda. Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnig ac yn datblygu sgiliau annibyniaeth dda.

Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefnau da i gadw’r plant yn ddiogel. Mae hi'n dangos rhyngweithiadau cadarnhaol a chydberthnasau agos â'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu adnoddau a gweithgareddau addas i gadw'r plant yn brysur, wedi'u hymgysylltu ac yn hapus.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda.  Mae'r eiddo'n addas dan do ac yn yr awyr agored, gydag adnoddau o ansawdd da i ddatblygu annibyniaeth a dysgu trwy chwarae.

Mae'r gwarchodwr plant yn rhedeg y lleoliad yn ddigon da. Fodd bynnag, mae meysydd i'w gwella mewn perthynas â'r polisi diogelu, y datganiad o ddiben a hyfforddiant diogelu. Mae'n cwblhau adolygiad blynyddol o’r gwasanaeth ac yn diweddaru rhai anghenion hyfforddiant.  Mae gwiriadau recriwtio wedi cael eu cwblhau ac mae partneriaethau'n dda.

## Llesiant

Mae gan y plant lais cryf ac maent yn teimlo'n hyderus yng ngofal y gwarchodwr plant. Maent yn symud yn hyderus o un ystafell i un arall. Mae'r plant yn dewis reidio ar y teganau gwthio bach a dilyn diddordebau ei gilydd. Mae'r plant yn teimlo y gwrandewir ar eu hoffterau. Wrth gymryd rhan mewn digwyddiad addurno bisgedi, mae'r plant yn dweud wrth y gwarchodwr plant yn hyderus yr hoffent gael mwy o eisin neu fwy o addurniadau ar gyfer eu bisged coeden Nadolig.

Mae’r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yng ngofal y gwarchodwr plant. Wrth iddynt gyrraedd yn ôl o daith gerdded natur, maent yn gwenu wrth iddynt ddod i'r tŷ. Mae'r plant yn mynd at y gwarchodwr plant am gymorth. Er enghraifft, maent yn mynd at y gwarchodwr plant am helpu i dynnu dillad tywydd gwlyb ar ôl bod yn yr awyr agored. Maent yn mynd â llyfrau darllen a physlau at y gwarchodwr plant ac yn cwblhau jig-so gyda chymorth.

Mae rhyngweithio'r plant yn dda. Mae'r plant yn datblygu hyder a hunan-barch da. Er enghraifft, gwnaethant ddangos eu bisgedi wedi'u haddurno yn llawn balchder i'r gwarchodwr plant, gan wenu pan gawsom glod am eu hymdrechion. Mae'r plant yn rhannu adnoddau megis creonau a darnau o jig-so. Mae'r plant yn datblygu cwrteisi da yn ifanc iawn. Yn ystod amser cinio, maent yn dweud “*Ie plîs*” pan fydd y gwarchodwr plant yn gofyn iddynt pe hoffent gael iogwrt i'w pwdin. Mae'r plant yn gwrando'n dda wrth iddynt fynd am deithiau cerdded yn yr ardal leol, gan sefyll wrth ochr y gwarchodwr plant a dal ei llaw. Mae'r plant yn dangos gofal a sensitifrwydd tuag at y plant eraill trwy roi eu braich o'u cwmpas wrth iddynt sefyll gyda'i gilydd i gwblhau jig-so.

Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau a gynigir. Er enghraifft, roedd y plant yn rholio'r eisin yn eiddgar ac yn addurno'u bisgedi â chwistrellau a pheli arian. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau megis lliwio coeden Nadolig â chreonau cwyr. Maent yn mwynhau gwylio'r ceir yn rholio i lawr ramp ac yn cydnabod lliwiau'r ceir, gan ddweud “*melyn, coch, glas*”.

Mae'r plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth da. Maent yn estyn am adnoddau gwahanol ac yn chwarae'n annibynnol â theganau cerddorol sy'n gwneud synau a chaneuon wrth eu gwasgu.  Amser cinio, mae'r plant yn dangos annibyniaeth sy'n datblygu trwy ddefnyddio ffyrc i fwyta eu cinio a llwy i fwyta eu pwdin. Mae'r plant yn dangos sgiliau echddygol manwl da wrth iddynt binsio'r darnau bach o eisin a thorri darnau o eisin â chyllell. Maent yn dal creonau yn dda wrth wneud marciau a lliwio. Mae'r plant yn ymwybodol o'u trefniadau arferol ac yn ceisio tynnu eu dillad tywydd gwlyb ar unwaith ac yn ymolchi eu dwylo heb unrhyw anogaeth gan y gwarchodwr plant.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefnau da i gadw’r plant yn ddiogel. Mae ei dealltwriaeth o amddiffyn plant a diogelu'n dda, gan ymateb yn dda pan ofynnir iddi am senarios posibl. Fodd bynnag, nid yw hyfforddiant diogelu ac amddiffyn plant y gwarchodwr plant yn gyfredol. Mae'r gwarchodwr plant yn trosglwyddo cyn lleied o heintiau â phosibl trwy sicrhau ei bod yn ymolchi ei dwylo cyn paratoi bwyd a bod y plant yn ymolchi eu dwylo cyn gweithgareddau pobi a bwyta. Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn ei pholisi newid cewynnau gyda'r defnydd o gyfarpar diogelu personol. Er enghraifft, mae hi'n gwisgo masg a menig ar gyfer newid cewynnau ac mae'r gwarchodwr plant yn diheintio ac yn ymolchi ei dwylo ar ôl newid cewynnau. Mae rhieni'r plant yn darparu bwydydd i'r plant, sy'n iach ac yn cael eu cadw yn yr oergell. Mae hi'n annog y plant i yfed dŵr drwy'r amser. Mae hi'n dadheintio pob arwyneb cyn ac ar ôl bwyd ac mae'r gwarchodwr plant yn glanhau wynebau a dwylo'r plant â hancesi gwlybion ar wahân ar ôl bwyta. Mae gan y gwarchodwr plant dystysgrif cymorth cyntaf pediatrig gyfredol.

Mae gan y gwarchodwr plant gydberthnasau cadarnhaol ac agos â'r plant. Pan fydd y plant yn dod ati am gofleidiadau, mae'n ymateb yn gadarnhaol. Mae'n sicrhau bod y plant yn hapus ac yn ddiogel trwy ofyn iddynt sut ydyn nhw ac yn gofyn iddynt chwythu ar eu bwyd eu hunain. Mae'r gwarchodwr plant yn dathlu cyflawniadau'r plant trwy weiddi “*Yey!*” wrth iddynt orffen addurno eu bisgedi Nadolig ac wrth iddynt orffen lliwiau eu lluniau. Mae'r gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda. Mae hi'n gwybod bod y plant yn hoffi cwblhau tasgau penodol yn annibynnol. Er enghraifft, pan fydd y plant ifanc am fwydo eu hunain heb gymorth. Mae'r gwarchodwr plant yn batrwm ymddygiad da ac mae'n annog y plant i fod yn gwrtais. Mae hi’n annog y plant i ddweud ‘os gwelwch yn dda’ a ‘diolch’ am fwyd ac adnoddau, ac yn annog y plant i rannu creonau a theganau.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gweithgareddau ac adnoddau addas i gadw'r plant yn brysur, wedi'u hymgysylltu ac yn hapus. Mae hi'n ymgysylltu â'u hanghenion chwarae a dysgu trwy drafod lliwiau a siapiau yn ystod gweithgareddau pobi a lliwio ac wrth gwblhau pyslau a chwarae â cheir a blociau. Mae'r gwarchodwr plant yn cynllunio gweithgareddau wythnosol i ddatblygu ystod o sgiliau trwy themâu. Mae hi'n hyrwyddo datblygiad y Gymraeg drwy ddarllen straeon i'r plant ac yn trafod enwau anifeiliaid. Mae'r gwarchodwr plant yn cofnodi cynnydd y plant trwy gadw cofnod o weithgareddau ac anghenion datblygiadol y plant, a'u cyflawniadau. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu cyfleoedd da i'r plant ddatblygu dealltwriaeth o ddiwylliannau ac amrywiaeth ar adegau gwahanol o'r flwyddyn, ac mae'n hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig trwy baratoi gweithgareddau ar gyfer dathliadau ‘Dydd Santes Dwynwen’ a ‘Dydd Gŵyl Dewi’.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Mae diogelwch yn addas. Mae hi'n cynnal ymarferion tân rheolaidd ac yn diweddaru'r gwiriadau gwaith cynnal a chadw yn rheolaidd. Mae asesiadau risg yn addas. Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu arferion glanhau a hylendid, gan gynnwys glanhau adnoddau a theganau'n rheolaidd.

Mae'r eiddo'n addas dan do ac yn yr awyr agored, gydag adnoddau o ansawdd da i ddatblygu annibyniaeth a dysgu trwy chwarae. Mae'r amgylchedd dan do yn gynnes ac yn groesawgar gyda man eang i'r plant chwarae a symud o gwmpas yn rhydd. Mae dathliad o waith celf y plant yn cael ei arddangos ar y waliau. Mae adnoddau dysgu a chwarae ar lefel isel ac yn hygyrch i oedrannau a chyfnodau datblygiad y plant. Gall y plant gael mynediad at yr ardaloedd bwyta/cegin a lolfa, sy'n gyfforddus gydag ystod o byslau a theganau sy'n addas ar gyfer amseroedd gorffwys ac ymlacio.  Mae ystafell ymolchi hygyrch i lawr y grisiau, gyda photi, cam hyfforddi, sebon hylif a thyweli papur ar gael. Mae lle i'r plant gysgu mewn ystafell ar y llawr daear. Mae'r rhieni'n penderfynu p'un a yw'r plant yn cysgu yn yr ystafell gysgu, mewn bygi neu ar y soffa.

Mae'r man yn yr awyr agored  yn rhoi cyfleoedd da i'r plant. Mae mannau i'r plant chwarae dan do yn yr awyr agored a lawnt gyda rhwydi pêl-droed, sleid, peli, treisiglau a sgwteri. Mae’r adnoddau chwarae dan do yn hygyrch i'r plant ac yn rhoi cyfleoedd i'r plant chwarae â theganau adeiladu, anifeiliaid a chwarae byd bach, chwarae dychmygol, llyfrau Cymraeg, adnoddau celf, gemau a physlau. Mae adnoddau sy'n datblygu ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau ac amrywiaeth. Er enghraifft, mae doliau, llyfrau, gemau ac adnoddau eraill ar gael.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r gwarchodwr plant yn rhedeg y lleoliad yn ddigon da. Mae datganiad o ddiben, sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn bodloni rhai gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r datganiad o ddiben yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â chodi cwynion a phryderon, a gweithdrefnau mewn argyfwng. Mae'r gwaith o gadw cofnodion yn drefnus. Er enghraifft, mae contractau, caniatadau a gwybodaeth i'r plant sy'n mynychu'r gwasanaeth. Mae gan y gwarchodwr plant dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyfredol ac mae'r dogfennau car yn ddilys. Mae cymarebau oedolyn i blant yn cael eu diwallu drwy'r amser a chedwir cofnod amser manwl ar gyfer y plant a'r staff sy'n mynychu'r lleoliad. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r polisi amddiffyn plant yn cynnwys yr arferion cyfredol mewn perthynas â 'Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan'.

Mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau adolygiad blynyddol o'r gwasanaeth. Mae hi'n adolygu ei harferion a hyfforddiant cyfredol, gan geisio barn y rhieni a'r plant trwy holiaduron. Fodd bynnag, nid yw targedau ar gyfer y lleoliad yn y dyfodol yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad ansawdd gofal.

Mae gwiriadau recriwtio yn cael eu cwblhau. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod tystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i bob aelod o'r cartref a'r cynorthwywyr gwarchod plant yn y gwasanaeth. Y cynorthwywyr gwarchod plant yw gwirfoddolwyr sy'n cynorthwyo'r gwarchodwr plant pan fydd angen. Mae'r gwarchodwr plant yn ymgysylltu'n dda ag Arolygiaeth Gofal Cymru trwy hysbysiadau ar-lein ac mae'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth blynyddol wedi'i gwblhau.

Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn dda. Dywedodd y rhieni wrthym fod y polisïau a'r wybodaeth wedi'u rhannu gyda nhw cyn i'w plant ddechrau yn y gwasanaeth. Maent yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a ddarperir ar gyfer eu plant, yn enwedig y ffordd y mae'r gwarchodwr plant wedi hwyluso'r gwaith o anfon y plant i ofal plant yn ystod y pandemig COVID-19 cyfredol. Mae'r gwarchodwr plant yn ymgysylltu'n dda â'r rhieni ar lafar ac yn anfon negeseuon at y rhieni. Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud teithiau rheolaidd i'r ardal leol, gan fynd â'r plant i'r goedwig, y traeth ac atyniadau a pharciau lleol. Mae'r rhieni yn fodlon ar y gwasanaeth.

## Argymhellion i fodloni’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant a diogelu a chynnwys ‘Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan’ yn y polisi amddiffyn plant.

A2. Diweddaru'r datganiad o ddiben i gynnwys manylion am weithdrefnau cwynion a brys y gwasanaeth gwarchod plant.

A3. Sicrhau bod yr adolygiad ansawdd gofal yn cynnwys y targedau ar gyfer y gwasanaeth gwarchod plant yn y dyfodol.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe’i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| --- | --- | --- |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |
| 30 | Cadw cofnodion – Rheoliad 30. Oriau gwirioneddol – cofnod dyddiol. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad cyhoeddi** 21/03/2022